# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 9 Mehefin 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Mike German (Dwyrain De Cymru);** Pryd bydd canlyniadau'r gwerthusiadau o gnydau GM ar ffermydd yn cael eu cyhoeddi. (WAQ25700)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gnydau OSR GM a gafodd eu plannu yng Ngwent ers 1996 a pha waith monitro ôl-gynaeafu a gafodd ei wneud. (WAQ25707) **W**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Mike German (Dwyrain De Cymru);** Yn dilyn ei ateb i WAQ24485, a wnaiff y Gweinidog nodi'r elfennau o'r pecynnau grant unigol a gynigiwyd a oedd yn gysylltiedig â phrosiect Semicon, a'r rhai a oedd yn gysylltiedig â phrosiect LG Electronics Cymru. (WAQ25701)

**Mike German (Dwyrain De Cymru);** Yn dilyn ei ateb i WAQ24487, a wnaiff y Gweinidog amlinellu'r darpariaethau adennill penodol mewn perthynas â grantiau eiddo a RSA o ran y safle electronig. (WAQ25702)

**Mike German (Dwyrain De Cymru);** Yn dilyn ei ateb i WAQ24486, a wnaiff y Gweinidog ddatgelu faint o'r grant o £247 miliwn a gynigiwyd sydd wedi'i dalu. (WAQ25703)

**Mike German (Dwyrain De Cymru);** Yn dilyn ei ateb i WAQ24484, a wnaiff y Gweinidog amlinellu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y sefyllfa dileu swyddi yn LG Phillips Casnewydd gan y prif asiantaethau cymorth. (WAQ25704)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno i Lywodraeth y DU mewn perthynas â sicrhau nad yw organau dynol yn cael eu cadw heb ganiatâd y teulu neu'r berthynas agosaf. (WAQ25705)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau nad yw Sgandal Cadw Organau tebyg i'r un yn Ysbyty Alder Hey, a effeithiodd ar lawer o bobl o Gymru, yn digwydd eto. (WAQ25706)